



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

DYDDIAD 16 Tachwedd 2018

GAN Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Cyfraith [yr UE a ddargedwir] sy'n cael ei diwygio

Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

- Rheoliad y Cyngor (EC) 1255/97 ynglŷn â meini prawf y Gymuned ar gyfer safleoedd rheoli a diwygio cynllun y daith fel y cyfeirir ato yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb 91/628/EEC;
- Rheoliad y Cyngor (EC) 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo a gweithrediadau cysylltiedig a Chyfarwyddebau diwygio 64/432/EEC a 93/119/EC a Rheoliad (EC) rhif 1255/97;
- Rheoliad 1099/2009 yr UE ar ddiogelu anifeiliaid adeg eu lladd.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae Lles anifeiliaid yn fater datganoledig.

Diben y diwygiadau

Diben yr OS hwn (y weithdrefn negyddol), i'w gyflwyno gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), yw sicrhau bod Rheoliadau perthnasol yr UE mewn perthynas â diogelu lles anifeiliaid wrth eu cludo, eu cadw mewn safleoedd rheoli neu adeg eu lladd yn parhau i fod yn weithredadwy ac yn orfodadwy yn y DU ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mae'r OSau a'r Memoranda Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma:

<https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-animal-welfare-amendment-eu-exit-regulations-2018>

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.